# Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer – Cymru

Statws: Agored
Dyddiad lansio: 24 Chwefror 2025
Dyddiad cau: 19 Mai 2025

## Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol yn bennaf:

- Awdurdodau cymwys – awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd
- Busnesau bwyd a chyrff masnach y diwydiant
- Cyrff dyfarnu ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd yr amgylchedd a safonau masnach
- Efallai y bydd gan undebau llafur a grwpiau arbenigol ddiddordeb hefyd

## Pwnc yr ymgynghoriad

Yng Nghymru, awdurdodau lleol (ALlau) ac awdurdodau iechyd porthladdoedd (PHAs) yw'r Awdurdodau Cymwys (CAs) sy'n gyfrifol am wirio a gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd yn y rhan fwyaf o fusnesau bwyd. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar CAs i ystyried y darpariaethau yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Cod) mewn perthynas â chynnal rheolaethau swyddogol.

Mae angen adolygu'r Cod yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau, polisïau a gofynion deddfwriaethol cyfredol fel bod gwaith CAs o gynnal rheolaethau bwyd yn parhau i fod yn effeithiol, yn gyson ac yn gymesur. Nod yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer, a amlinellir isod.

## Diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer yng Nghymru.

Mae'r prif gynigion yn cynnwys:

1. dull wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar risg o ran blaenoriaethu a gosod amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol hylendid bwyd cychwynnol mewn sefydliadau bwyd newydd, a chynnal rheolaethau swyddogol priodol
2. cyflwyno'r hyblygrwydd i gynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol o bell o dan amgylchiadau penodol
3. ymestyn y gweithgareddau y gall swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas' ar gyfer hylendid bwyd neu safonau bwyd eu cyflawni, os ydynt yn gymwys
4. eglurhad o'r dull o gynnal ymyriadau mewn sefydliadau busnesau bwyd sy'n dod o dan gategori risg E ar gyfer hylendid bwyd

5. cael gwared ar y nifer penodol o oriau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
6. cyflwyno cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd newydd y bydd swyddogion awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i werthuso'r risg a berir gan fusnes bwyd
7. cyflwyno matrics penderfynu newydd i bennu pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol yn unol â chanlyniad yr asesiad risg
8. diwygiadau eraill nad ydynt yn diwygio polisi, er mwyn darparu eglurder, gwella cysondeb a bod yn gyson ag arferion presennol

Mae'r diwygiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriadau ar wahân yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Pecyn ymgynghori

### Wales

PDF
Gweld Pecyn Ymgynghori – Adolygiad o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer (Cymru) as PDF(Open in a new window) (398.57 KB)

Gan mai canllawiau drafft yw'r rhain, maent wedi'u hatodi yn Saesneg yn unig. Bydd y Gymraeg yn cael ei chyhoeddi pan fydd y canllawiau ar eu ffurf derfynol.

### Wales

PDF
Gweld Atodiad A – Crynodeb o Newidiadau i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd – Ymgynghoriad (Cymru) 2025 as PDF(Open in a new window) (148.26 KB)

### Wales

PDF
Gweld Atodiad B – Crynodeb o Newidiadau i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd – Ymgynghoriad (Cymru) 2025 as PDF(Open in a new window) (336.84 KB)

### Wales

PDF
Gweld Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Drafft (Cymru) – Ymgynghoriad 2025 as PDF(Open in a new window) (965.82 KB)

### Wales

PDF
Gweld Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Drafft (Cymru) – Ymgynghoriad 2025 as PDF(Open in a new window) (2.2 MB)

## Sut i ymateb

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich sylwadau. Gallwch ddefnyddio'r PDF rhyngweithiol neu'r ddogfen Word. Yna, dylid e-bostio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i?

CodeReviewResponses@food.gov.uk.

### Wales

WORD
Gweld Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer Modelau Gweithredu Hylendid a Safonau as Word(Open in a new window) (81.43 KB)

### Wales

PDF
Gweld Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer Modelau Gweithredu Hylendid a Safonau as PDF(Open in a new window) (403.48 KB)

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.